Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 9 Ebrill am 6:45p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

73. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Gavin Harris.

74. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

75. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018 yn gywir.*

76. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

77. PRISIAU DYFRIO'R BASGEDI CROG 2018-2020
Cyflwynwyd dau ddyfynbris dyfynbrisiau ar gyfer dyfrio'r basgedi crog am y cyfnod tair blynedd 2018-2020.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda'r ddau gontractwr eto i gael y prisiau yn yr un fformat erbyn y cyfarfod nesaf er mwyn medru gwneud penderfyniad bryd hynny.*

78. GRŴP TREF DACLUS RHUTHUN
Bu'r aelodau'n ystyried papur gan y Cynghorydd Gavin Harris ynghylch sefydlu grŵp Tref Daclus yn Rhuthun. Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn syniad da.
PENDERFYNWYD*: gwahodd Gareth Jones, Cadwch Gymru'n Daclus, i sgwrsio gyda'r Cynghorwyr i roi cyngor ynghylch sefydlu grŵp o'r fath.*

79. GOLEUO'R GOFEB RHYFEL
Ystyriodd yr aelodau yr awgrym y gellid defnyddio goleuadau LED i oleuo'r Gofeb Rhyfel. Roedd pawb o'r farn ei fod yn gynnig da.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda dau gwmni trydanol i gael prisiau am gyflawni'r gwaith.*

80. DYDDIAU PARCIO AM DDIM 2018
Gofynnwyd i'r aelodau benderfynu ar ddyddiadau'r pum diwrnod parcio am ddim a gynigir gan Gyngor Sir Ddinbych yn yr wyth maes parcio a weithredir gan yr awdurdod lleol yn Rhuthun. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl cael dau ddiwrnod ychwanegol.
PENDERFYNWYD*: dewis y dyddiadau a ganlyn: 30 Mehefin – Gŵyl Rhuthun, 2 + 8 Medi – Drysau Agored, 1 Rhagfyr – Goleuadau Nadolig ac 8, 15 a 22 Rhagfyr – Siopa Nadolig.*

81. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Fawrth, 8 Mai 2018 am 7:30pm.*